CYFRES A9


# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Enw



DARLLENWCH
Genesis 28: 1-22




ADNOD ALLWEDDOL
Genesis 28: 16

*Gofynnwch i rywun eich helpu i ddod o hyd i'r adnod.*

## Stori 3 Jacob yn cwrdd â Duw

Ydych chi wedi byw yn yr un tŷ erioed? Weithiau, mae pobl yn symud i dref neu bentref arall. Dywedodd Isaac wrth ei fab, Jacob, am fynd i Haran at ei ewythr Laban a phriodi un o'i ferched. Gan fod ei frawd, Esau, yn bwriadu ei ladd, roedd Jacob yn meddwl y byddai'n syniad da symud i ffwrdd am dipyn!


**C Ysgrifennwch enw'r lle yr oedd Jacob yn mynd iddo ar y postyn.** 4




**C Rhowch gylch o gwmpas enw ewythr Jacob.** 4

Abraham Laban Esau

Aeth Jacob ar ei daith. Pan ddaeth y nos, arhosodd mewn lle o'r enw Lus, a defnyddiodd garreg fel gobennydd. Cafodd freuddwyd ryfedd iawn. Breuddwydiodd ei fod yn gweld rhyw fath o risiau neu ysgol. Roedd y gwaelod ar y ddaear a'r rhan uchaf yn cyrraedd y Nefoedd.




**C Ysgrifennwch lythyren gyntaf y pethau hyn i gael gwybod pwy oedd yn mynd i fyny ac i lawr yr ysgol.** 4



___ ng ___ ___ ___ ___ ___

Yn y freuddwyd, siaradodd Duw â Jacob. Addawodd ei fendithio fe a'i deulu. Meddai, "Byddaf i gyda ti ac fe wnaf i dy amddiffyn di ble bynnag yr ei di. Byddaf yn bendithio'r holl genhedloedd trwot ti a dy ddisgynyddion." Meddyliwch am y pethau drwg roedd Jacob wedi'u gwneud!
Rydyn ni'n debyg i Jacob. Rydyn ni wedi gwneud pethau drwg hefyd. Mae Duw yn ein caru fel yr oedd yn caru Jacob. Anfonodd ei Fab i farw ar y groes droson ni. Trwy farw droson ni, daeth Iesu'n 'ysgol' o'r ddaear i'r Nefoedd, rhyngom ni a Duw.




**C** **Rhowch tic (✓) neu groes (✗) i ddangos a yw'r brawddegau hyn yn gywir ai peidio.**

**1. Defnyddiodd Jacob glustog fel gobennydd. ..........**

**2. Roedd Duw'n caru Jacob. ..........**

**3. Mae Duw'n ein caru ni. ..........**

**4. Bu Iesu farw ar y groes droson ni. ..........**

**4**

Roedd ofn ar Jacob. Dechreuodd feddwl am Dduw. Gwnaeth Jacob addewid i Dduw. Meddai, "Os af i nôl yn ddiogel i dŷ fy nhad, bydd yr Arglwydd yn Dduw i mi."

**C** **Llanwch y bylchau i gael gweld beth yr oedd Duw wedi'i ddweud.**

**"Byddaf i g __ __ __ ti ac fe wnaf i dy a __ __ __ __ __ __ __ di"**

**4**

Doedd Jacob ddim wedi dysgu bod Duw bob amser yn cadw'i addewidion! Dyna pam y dylen ni ymddiried yn Nuw".

